



Canllawiau Amddiffyn Plant Ysgol Waunfawr **Nodyn i Rien**

Dylai rhieni/gofalwyr fod yn ymwybodol bod gan ysgolion gyfrifoldeb i sicrhau lles yr holl ddisgyblion. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn golygu:-

- y bydd gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau amddiffyn plant;
- y dylai'r ysgol wneud rhieni neu ofalwyr yn ymwybodol o'i pholisi amddiffyn plant, efallai drwy ei gynnwys ym mhrosiectws yr ysgol, a bod hyn yn golygu y bydd efallai angen cyfeirio eu plentyn at yr asiantaethau lles plant statudol os ydynt yn credu bod y plentyn neu blant eraill mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol;
- y dylai'r ysgol geisio gweithio gyda rhieni/gofalwyr ynghylch lles eu plentyn ac aros yn ddiuedd os yw eu plentyn yn cael ei gyfeirio neu wedi cael ei gyfeirio;
- y dylai'r ysgol helpu rhieni neu ofalwyr i ddeall os cyfeirir y plentyn i'r gwasanaethau cymdeithasol neu i'r heddlu, yna gwneir hynny er lles gorau'r plentyn ac y bydd yr ysgol yn cyfrannu at unrhyw ymchwiliad amddiffyn plant neu ymchwiliad yr heddlu o ran lles a chynnydd addysgol eu plentyn;
- y bydd yr ysgol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni / gofalwyr yn gyson ynghylch lles a chynnydd addysgol y plentyn.

Ar 1 Medi 2006, daeth *adran 175 o Ddeddf Addysg 2002* i rym. Mae'n rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, a chyrrff llywodraethu sefydliadau addysg bellach i fod â threfniadau yn eu lle i sicrhau eu bod yn diogelu plant a bod y trefniadau hyn yn ystyried canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'n ofynnol i ysgolion annibynnol fodloni gofynion tebyg o dan safonau a gyflwynwyd o dan *adran 157 o Ddeddf Addysg 2002*.

Os oes gan weithiwr proffesiynol bryderon ynghylch plentyn, byddant fel arfer yn ceisio trafod hyn â'r teulu a, lle bo hynny'n bosibl, yn gofyn am eu caniatâd i gyfeirio'r plentyn i'r gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, ni ddylid gwneud hyn ond lle na fyddai trafodaeth a chytundeb o'r fath yn rhoi'r plentyn mewn mwy o berygl o ddioddef niwed sylweddol. Bydd y cyngor hwnnw'n cael ei roi gan yr adran gwasanaethau cymdeithasol lleol mewn ymgynghoriad, lle bo'n briodol, â'r heddlu.

Dylai'r person amddiffyn plant dynodedig yn yr ysgol (y pennaeth) gael gwybod yn iawn gan yr asiantaethau statudol hyn pryd, sut a phwy fydd yn hysbysu'r rhieni neu'r gofalwyr y bydd eu plentyn efallai'n cael ei gyfeirio. Dylent hefyd ofyn am gyngor ynghylch a ddylid rhoi gwybod i'r plentyn am y broses neu beidio.

Fel rhiant neu ofalwr, efallai y byddwch yn teimlo'n unig ar brydiau ond fel arfer mae rhywun ar gael i siarad â nhw. Nid yw gofalu am blant bob amser yn rhwydd, ac os ydych yn ei chael hi'n anodd ymdopi efallai y bydd angen i chi ofyn am help a chymorth i amddiffyn eich plentyn.

Efallai y bydd y canlynol yn ddefnyddiol:-

- gwnewch amser i siarad â'ch plentyn a gwranddo arno/arni;
- dewch i adnabod ffrindiau ac arferion beunyddiol eich plentyn;
- byddwch yn sensitif i unrhyw newid yn ei ymddygiad;
- dysgwch eich plentyn i deimlo'n hyderus i wrthod gwneud unrhyw beth os nad yw'n teimlo'n iawn;
- byddwch yn ymwybodol o sut mae'ch plentyn yn defnyddio'r rhyngwrwyd a'i ffôn symudol, fel nad yw'n rhoi ei hun mewn perygl.

Atodiad Amddiffyn Plant – Rhifau Ffôn Pwysig:

Y Pennaeth – Mrs Gwenan Williams – 01286 650451

Y cydlynnydd ADY– Mrs Hannah Williams– 01286 650451

Llywodraethwr dynodedig – Mr Rhodri Sion 01286 650870

Tîm amddiffyn plant – 01758 704428

Swyddog Llês – Mrs Linda Jones - 07775500977